

Briff i Ymgeiswyr Cadeirydd

Gemau'r Gymanwlad Cymru





Cefndir Gemau'r Gymanwlad Cymru

Gemau'r Gymanwlad Cymru sy'n gyfrifol am baratoi a chyflwyno Tîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad a Gemau Ieuencid y Gymanwlad.

Rydym yn un o blith 74 o Gymdeithasau Gemau'r Gymanwlad sy'n aelodau o Chwaraeon y Gymanwlad. Mae Gemau'r Gymanwlad Cymru yn un o ddim ond chwe gwlad sydd wedi cystadlu ym mhob un o'r Gemau ers eu lansio yn 1930.

Ein cyfrifoldeb ni yw arwain a rheoli cyfranogiad Tîm Cymru a darparu amgylcheddau rhagorol ar gyfer perfformio a chefnogi. Ar gyfer pob un o'r Gemau, ein nod yw datblygu'r tîm gorau posibl, creu amgylchedd sy'n ysbrydoli, a rhoi arweinyddiaeth gadarn. Rydym hefyd yn ymdrechu i gynrychioli Cymru yn effeithiol o fewn Chwaraeon y Gymanwlad, a chodi proffil ac atgyfnerthu gwerth, enw da a dyfodol y digwyddiadau chwaraeon gwych hyn. Ymdrechwn hefyd i gynyddu ymwybyddiaeth o Gemau'r Gymanwlad drwy ennyn diddordeb pob unigolyn yng Nghymru a chymunedau Cymreig ledled y Gymanwlad, gan sicrhau bod chwaraeon a lles yn berthnasol i fywyd pob dydd pawb.

Mae Gemau'r Gymanwlad Cymru yn cynnwys bwrdd cyfarwyddwyr dan gadeiryddiaeth Gareth Davies, ein Llywydd Helen Phillips MBE, a thîm gweithredol dan arweiniad ein Prif Swyddog Gweithredol, Rebecca Edwards-Symmons. Mae'r tîm gweithredol yn cynnwys 5 swyddog gweithredol amser-llawn. Rydym yn buddsoddi'n helaeth i gefnogi interniaid trwy raglen interniaeth Chwaraeon y Gymanwlad, a rolau rhan-amser yw'r rhain yn bennaf. Mae ein fforymau, ein pwyllgorau a rheolwyr ein tîm yn cael eu cefnogi'n helaeth gan dîm mawr o wirfoddolwyr sy'n greiddiol i'n bodolaeth.

Roedd incwm GGC yn y cylch 4 blynedd o 2022-2026 oddeutu £2.3m a daeth oddi wrth Chwaraeon Cymru a phartneriaethau masnachol.



Strategaeth Tîm Cymru

Un Tîm. Un Cymru. One Team. One Wales.

- Cefnogi amgylchedd Gemau sy'n canolbwyntio ar yr athletwyr ac sy'n galluogi pawb i gyflawni ei botensial yn llawn.
- Defnyddio pŵer chwaraeon fel catalydd ar gyfer gwelliant cymdeithasol yng Nghymru ac ar draws y Gymanwlad.
- Adeiladu Tîm Cymru sy'n gynhwysol, yn gynaliadwy ac yn llwyddiannus.
- Dathlu ein hetifeddiaeth ac ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol.

Ein Gwerthoedd

Rhagoriaeth:

Anelu at ragoriaeth ym mhob agwedd ar y tîm; o berfformiad yr athletwyr i'n gweithrediadau sefydliadol. Mae arferion cynaliadwy yn rhan annatod o'r gwaith o gyrraedd y safonau uchaf ym mhopeth, ac mae hyn yn arwydd bod Tîm Cymru nid yn unig yn rhagori yn ei berfformiadau ond hefyd mewn gweithrediadau sy'n gyfrifol ac yn ystyriol o'r amgylchedd.

Ysbrydoliaeth:

Ysbrydoli ac ysgogi cenedlaethau'r dyfodol o athletwyr, cefnogwyr a chymunedau ledled Cymru. Ymdrechu i gael effaith gadarnhaol ar gymdeithas, nid yn unig mewn chwaraeon ond hefyd trwy fentrau i hybu gwelliant cymdeithasol.

Cynhwysiant:

Mae meithrin cynhwysiant o safbwynt unigolion, timau a chymunedau yn creu gwir ymdeimlad o gydweithrediad, cefnogaeth a chymuned. Yn ei dro, bydd hyn yn cael effaith barhaol a chadarnhaol ar ein cymdeithas, yn ogystal â sicrhau lles Tîm Cymru a'r grŵp amrywiol o bobl yr ydym yn ymdrechu i'w hysbrydoli.





Gemau'r Gymanwlad

Mae Gemau'r Gymanwlad yn ddigwyddiad aml-wlad, aml-chwaraeon. Fe'u cynhelir bob pedair blynedd, ac maent yn cynnwys athletwyr elitaidd Cymanwlad y Gwledydd.

Chwaraeon y Gymanwlad yw'r sefydliad sy'n gyfrifol am bennu cyfeiriad a rheoli Gemau'r Gymanwlad. Mae Cymdeithas Gemau'r Gymanwlad yn bodoli yn y gwledydd unigol sy'n cymryd rhan, a'r cymdeithasau hynny sy'n gyfrifol am bresenoldeb a pherfformiad y tîm cenedlaethol yn y Gemau.

Cynhaliwyd y Gemau cyntaf, a elwid bryd hynny yn Gemau'r Ymerodraeth Brydeinig, ym 1930 yn Hamilton, Ontario, yng Nghanada. Newidiodd yr enw i Gemau'r Ymerodraeth Brydeinig a'r Gymanwlad yn 1954, i Gemau'r Gymanwlad Brydeinig yn 1970 ac i'r enw presennol, Gemau'r Gymanwlad, yn 1974.

Yn ogystal â llawer o chwaraeon Olympaidd, mae'r Gemau hefyd yn cynnwys rhai chwaraeon sy'n cael eu chwarae yn bennaf yng ngwledydd y Gymanwlad, fel bowlïo lawnt, pêl-rwyd a sboncen. Yn unol â strategaeth Chwaraeon y Gymanwlad, yn fwy nag erioed ceir hyblygrwydd i'r gwledydd sy'n cynnal y gemau i'r dyfodol ystyried amrywio model a maint y gemau.

Ar hyn o bryd ceir 56 o aelodau o Gymanwlad y Gwledydd, ac mae 74 o dimau yn cymryd rhan yn y Gemau. Mae pedair gwlad y Deyrnas Unedig - Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon - yn anfon timau ar wahân, ac mae Guernsey, Jersey ac Ynys Manaw yn anfon timau unigol hefyd.

Dim ond chwe tîm sydd wedi mynychu pob un o Gemau'r Gymanwlad: Cymru, Lloegr, Awstralia, Canada, Seland Newydd a'r Alban. Mae Awstralia wedi dod i frig y tabl medalau mewn deuddeg o'r gemau, Lloegr mewn saith ohonynt a Chanada unwaith.

Glasgow 2026 oedd y gemau diweddaraf, gyda Tîm Cymru yn anfon 113 o athletwyr - gan gynnwys 22 o bara-athletwyr - i gystadlu mewn 10 camp. Er bod y Gemau ar raddfa lai, cafodd Cymru lwyddiant aruthrol, gan ennill cyfanswm o 31 o fedalau.





Gwerth Gemau'r Gymanwlad

Efallai bod y Gemau yn rhai cyfeillgar dros ben, ond mae'r cystadlu yn aml yn danbaid. I rai chwaraeon nad ydynt yn chwaraeon Olympaidd, dyma'r pinacel. Mae'r enillwyr yn falch iawn o'u medalau a thros y blynyddoedd cafwyd llawer o berfformiadau eiconig. Bydd buddugoliaeth Emma Finucane yn ennill 4 medal aur yn fythgofiadwy fel un o'r llwyddiannau mwyaf yn hanes chwaraeon; felly hefyd llwyddiant ysgubol Frankie Jones pan enillodd 6 o fedalau yn 2014, medal Aur Bob Morgan yn 1990 am ddeifio oddi ar blatfform 10m, a medal Aur Nicole Cook yn y ras ffordd ym Manceinion 2002 - does dim dwywaith amdani, mae Tîm Cymru wedi cael llwyddiannau ysgubol.

Y Gemau yw'r llwyfan cystadleuol mwyaf i lawer o athletwyr o Gymru, gan roi iddynt gyfle unigryw i gynrychioli eu gwlad mewn digwyddiad aml-chwaraeon byd-eang. Maent yn rhoi'r profiad iddynt o gymryd rhan mewn cystadleuaeth ryngwladol flaenllaw, ac yn rhoi cyfle i athletwyr Tîm Cymru gystadlu dros Gymru, yn wahanol i gystadlaethau eraill lle maent yn cystadlu dros Brydain Fawr. I'r uwch dîm arwain a chefnogi (sy'n cynnwys meddygon, ffisiotherapyddion, y cyfryngau, a chefnogaeth weithredol a logistaidd) mae'r Gemau yn rhoi profiad cyfoethog iddynt, a all agor drysau i gymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon mawr eraill.

Mae'r Gemau yn cyfrannu nid yn unig at chwaraeon ond hefyd at gymdeithas a diwylliant. Maent yn ymwneud â phobl ifanc yn bennaf, ac maent, wrth eu natur, yn amlddiwylliannol. Mae'r 'teimlad' hanesyddol o lawenydd a chwarae teg sydd i'r Gemau wedi ennyn iddynt y llysenw 'Y Gemau Cyfeillgar', ac mae hynny'n gwbl unigryw ymhlith digwyddiadau byd-eang tebyg.





Mae Bwrdd GGC yn cynnwys:

- Llywydd
- Cadeirydd
- Prif Swyddog Gweithredol
- Cyfarwyddwyr Anweithredol gyda chymorth cyfreithiol ymgynghorol cyfetholedig a Chwaraeon Cymru.

Bydd sawl aelod o'r Bwrdd yn dod i ddiwedd eu cyfnod yn eu swydd yn y cylch hwn. Mae'r sefydliad wedi diweddaru ei Erthyglau Cymdeithasu yn ddiweddar ac un o'r prif newidiadau yw cyfansoddiad y Bwrdd a fydd bellach yn cael ei benodi a'i ethol fel a ganlyn:

1 x Llywydd a enwebir gan y Bwrdd ac a benodir gan yr aelodaeth.

1x Cadeirydd Anweithredol Annibynnol a benodir gan y bwrdd.

6 x Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol, a benodir gan y bwrdd.

3 x Cyfarwyddwr Anweithredol Etholedig a enwebir ac a benodir gan yr aelodaeth.

1 x Cyfarwyddwr Athletwyr Penodedig

1 x Cadeirydd y Comisiwn Athletwyr

Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, ond gall hyn amrywio yn dibynnu ar anghenion y sefydliad yn ystod cylch y Gemau. Mae'r Bwrdd yn cael ei gefnogi gan sawl pwyllgor gan gynnwys y Comisiwn Athletwyr, y Pwyllgor Archwilio a Chyllid, y Pwyllgor Masnachol, y Pwyllgor Enwebiadau a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Risg.

Pwyllgor enwebiadau a fydd yn ystyried y ceisiadau ar gyfer pob rôl, ac yn llunio rhestr fer, a'r Bwrdd fydd yn gyfrifol am y broses ddethol derfynol. Bydd pwyllgor enwebiadau yn ystyried pob enwebiad a ddaw oddi wrth aelod-chwaraeon ar gyfer swyddi etholedig, ac yn llunio rhestr fer, a'r Bwrdd fydd yn gyfrifol am eu hethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol.

Leadership responsibilities:

- Y Llywydd sy'n arwain y gorymdeithio a'r gynrychiolaeth gan gynnwys cynnal digwyddiadau allweddol i randdeiliaid ar ran GGC.
- Mae'r Cadeirydd yn arwain y Bwrdd.
- Mae'r Cadeirydd yn rheoli, yn cefnogi ac yn arwain y Prif Swyddog Gweithredol.
- Mae'r Cadeirydd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Prif Swyddog Gweithredol ac yn cytuno ar y dangosyddion perfformiad allweddol.
- Y Cadeirydd sy'n meithrin naws ac amgylchedd y Bwrdd.
- Y Prif Swyddog Gweithredol sy'n arwain y tîm rheoli a'r staff.
- Y Prif Swyddog Gweithredol sy'n creu'r tîm ac yn annog datblygiad personol.
- Y Prif Swyddog Gweithredol sy'n cyflawni'r strategaeth.





Cadeirydd y Bwrdd

Sgiliau Penodol:

Cadeirydd sydd â phrofiad mewn arweinyddiaeth gorfforaethol a materion busnes ynghyd ag angerdd neu brofiad o chwaraeon yng Nghymru a Gemau'r Gymanwlad.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfforddus ac yn hyderus i arwain cyfarfodydd y Bwrdd ac i gael y gorau gan y cyfarwyddwyr eraill, trwy ddull cydweithredol a thrwy annog y Bwrdd i fynegi eu barn a'u syniadau. Bydd gan y Cadeirydd ddealltwriaeth gadarn o lywodraethu blaengar, bydd yn gallu ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid allweddol a dylanwadu arnynt, a rhoi hyder i'r aelodaeth.

Bydd y Cadeirydd yn arwain y Bwrdd i sicrhau:

1. Bod gan Gemau'r Gymanwlad Cymru weledigaeth, cyfeiriad strategol ac amcanion clir hyd at 2030 a thu hwnt.
2. Bod gan Gemau'r Gymanwlad Cymru raglen fasnachol gref a chynaliadwy gyda phartneriaid a noddwyr o'r radd flaenaf.
3. Bod Gemau'r Gymanwlad Cymru yn defnyddio'r holl gyfleoedd sydd ar gael i godi arian, gan sicrhau bod ganddynt berthynas ardderchog gyda'r rhanddeiliaid. (Llywodraeth, Chwaraeon y Gymanwlad, Chwaraeon Cymru, Chwaraeon Anabledd Cymru, UK Sport a Chyrff Llywodraethu Chwaraeon Cenedlaethol).
4. Bod y Bwrdd yn canolbwyntio ar annibyniaeth, ar berfformiad sefydliadol, ar gynaliadwyedd ariannol ac ar gyrraedd ei nodau a'i amcanion corfforaethol.
5. Bod y safonau llywodraethu corfforaethol gorau yn cael eu cynnal, ac y cydymffurfir â'r holl ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.
6. Bod aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol yn cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd.



Cadeirydd y Bwrdd

Cyfrifoldebau Cadeirydd y Bwrdd;

1. Cadeirio a hwyluso cyfarfodydd y Bwrdd yn ffurfiol a mynychu cyfarfodydd pwyllgor yn ôl y gofyn.
2. Pennu'r agenda ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a chymeradwyo'r cofnodion, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Gweithredol.
3. Sicrhau bod gan aelodau'r Bwrdd rolau a chyfrifoldebau clir a chanolbwyntio ar ddatblygiad y Bwrdd, gan sicrhau bod perfformiad unigolion, y Bwrdd yn ei gyfanrwydd a'i bwylgorau, yn cael ei werthuso o leiaf bob blwyddyn.
4. Gosod amcanion ar gyfer y Prif Swyddog Gweithredol a chynnal arfarniad o'r Prif Swyddog Gweithredol, gan rannu gwybodaeth a rhoi arweiniad yn ôl yr angen.
5. Cefnogi'r Prif Swyddog Gweithredol a'i ddwyn i gyfrif am berfformiad cyffredinol a chyflawniad cynlluniau Gemau'r Gymanwlad Cymru.
6. Adolygu perfformiad Gemau'r Gymanwlad Cymru yn erbyn ei gynllun busnes, ei gyllideb a'i dargedau ariannu.
7. Sefydlu fframwaith ar gyfer cymeradwyo polisïau a chynlluniau.
8. Gan gyd-fynd â rôl y Llywydd, cynrychioli Gemau'r Gymanwlad Cymru ar lefel uwch, gan feithrin perthynas â rhanddeiliaid allweddol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
9. Galluogi tegwch yn ymarferol ac ymdrechu i sicrhau cydraddoldeb i bob aelod, staff ac aelod o'r bwrdd. Sicrhau bod y Bwrdd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb sydd ganddo am Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y sefydliad a'i gynllun gweithredu.
10. Galluogi'r Bwrdd i fonitro ac adolygu'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Strategaeth a'r effaith debygol ar fusnes, gan gynnal safonau llywodraethu uchel bob amser.

Cadeirydd: Sgiliau, Cymwyseddau, Profiadau

- Profiad o fod yn uwch reolwr mewn sefydliad corfforaethol, masnachol, elusennol neu sector cyhoeddus, mewn sefydliad chwaraeon cenedlaethol neu fusnes chwaraeon masnachol.
- Profiad o weithredu ar lefel Bwrdd, yn ddelfrydol fel Cadeirydd ond yn sicr ar lefel Uwch Gyfarwyddwr Gweithredol neu Anweithredol. Gwybodaeth am y dirwedd chwaraeon (gwleidyddol, Chwaraeon Cymru, UK Sport, Chwaraeon y Gymanwlad ac ati) a diddordeb mawr mewn chwaraeon.
- Profiad o weithio gydag amrywiol randdeiliaid gan gynnwys y Llywodraeth.
- Gwybodaeth a phrofiad rhagorol o reolaeth ariannol gorfforaethol a strategaethau a phrosesau llywodraethu.
- Byddai profiad o arwain strategaethau codi arian neu o gyflawni neu arwain y gwaith o gynllunio digwyddiadau mawr yn sgiliau manteisiol.
- Profiad o fod mewn swydd arweinyddiaeth fel Cadeirydd ynghyd â'r gallu i arwain Bwrdd amrywiol, o'r radd flaenaf.
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol rhagorol i feithrin perthynas ag ystod eang o randdeiliaid.
- Sgiliau eiriolaeth a llysgenhadol i gynrychioli Gemau'r Gymanwlad Cymru yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Sgiliau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad a datblygu pobl.
- Barn ddoeth a chraff wrth wneud penderfyniadau.
- Yn wydn gyda'r gallu i ddelio â thensiwn, gwrthdaro a dod i gonsensws.
- Ymrwymiad i Gemau'r Gymanwlad Cymru.



Gwybodaeth Ddefnyddiol

Sut i wneud cais?

Anfonwch eich Curriculum Vitae gyda llythyr eglurhaol dwy dudalen yn amlinellu sut rydych chi'n addas ar gyfer y rôl hon, gan gynnwys manylion dau ganolwr proffesiynol (ni fyddwn yn cysylltu â'r canolwyr yn y cam hwn) i: nominations@teamwales.cymru erbyn 31/10/26.

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 07877 360934

Ymrwymiad Amser

Bydd y Cadeirydd sy'n gadael yn dal i fod ar gael i gynorthwyo nes bydd y Cadeirydd newydd yn ysgwyddo'r holl gyfrifoldebau corfforaethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ym mis Mawrth 2027. Byddem yn disgwyl ymrwymiad amser o 4 diwrnod y mis ar gyfartaledd gan gynnwys bod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd pwyllgor yn ôl y gofyn, ac mewn gweithgareddau eraill sy'n berthnasol i Gemau'r Gymanwlad Cymru megis cyfarfodydd gyda'r Prif Swyddog Gweithredol a'r rhanddeiliaid. Mae hwn yn ffigwr cyfartalog dros gyfnod y cylch ac mae'n debygol y byddai gofyn gweithio mwy o ddyddiau yn ystod y cyfnod cyn y Gemau a llai yng nghanau cynnar y cylch.

Lleoliad

Mae cyfarfodydd fel arfer yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb gyda'r dewis i ymuno ar-lein.

Dylai'r Cadeirydd ddisgwyl teithio rhyw gymaint ar draws y Deyrnas Unedig ac weithiau dramor i gyfarfodydd Gemau a Chwaraeon y Gymanwlad.

Mae'n ofynnol i'r Cadeirydd fynychu a bod yn bresennol ym mhob cyfarfod wyneb yn wyneb.



Gwybodaeth Ddefnyddiol

Tâl


Rôl wirfoddol yw hon, gyda'r holl fân-dreuliau priodol ar gyfer teithio a chynhaliaeth yn cael eu talu.

Cyfnod y Penodiad

Gwneir y penodiad i ddechrau tan y cyfarfod Ethol nesaf ym mis Mawrth 2031.

Gwrthdaro Buddiannau

Bydd angen i ymgeiswyr allu dangos nad oes ganddynt fuddiannau eraill a fyddai'n debygol o wrthdaro â'u cyfrifoldebau fel Cadeirydd. Rhaid ichi ddatgan unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro cyn gynted â phosibl yn y broses ddethol a datgelu gwybodaeth neu gysylltiadau personol a allai fod yn agored i gael eu camgymryd pe baech yn cael eich penodi. Cyfeiriwch at yr erthyglau cymdeithasu.





Polisi Cyfle Cyfartal

Mae'r Gemau'r Gymanwlad Cymru yn sefydliad cyfle cyfartal ac mae wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i holl aelodau'r bwrdd ac i'w weithwyr a'i ddarpar weithwyr. Mae hyn yn cynnwys wrth recriwtio, dethol, hyfforddi, trefnu amodau gwaith a rheoli gyrfa/ dyrchafu gweithwyr.

Mae Gemau'r Gymanwlad Cymru yn gwrthwynebu pob math o wahaniaethu anghyfreithlon ac annheg ar sail lliw, hil, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, crefydd neu gred, ac anabledd ac mae wedi ymrwymo i ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu yn y gweithle.

Rydyn ni'n ymrwymedig i greu amgylchedd gynhwysol lle mae pawb yn cael eu trin gyda pharch a urddas. Bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud drwy gydol y broses recriwtio i geisiwr sy'n eu hangen.

